**CYFNEWIDFA RHEOLAETH CYSWLLT FFERMIO**
**CANLLAWIAU TEITHIO A CHYNHALIAETH**

Mae gan ymgeiswyr llwyddiannus yr hawl i adhawlio'r costau canlynol wrth gwblhau eu Cyfnewidfa.

Mae'n rhaid i gyfnewidwyr ddefnyddio'u synnwyr cyffredin a phenderfynu'r ffordd 'wyrdd' orau, fwyaf gost effeithiol a mwyaf effeithlon o gwblhau'r daith. Mae hyn yn cynnwys ystyried defnyddio cludiant cyhoeddus a rhannu ceir os yn addas.

Yr egwyddor gyffredinol a weithredir wrth hawlio a thalu costau yw pan na dalwyd unrhyw gostau, yna nid oes unrhyw ad-daliad i'w wneud.

**Milltiroedd**

**Cyfnewidwyr sydd yn defnyddio cludiant eu hunain**

| Ceir | Beiciau Modur | Beic |
|---|---|---|
| 45p | 24p | 20p |

Wrth hawlio costau teithio modur, mae'n rhaid nodi lleoliad / cod post cychwyn a phen y daith (mae'n angenrheidiol i'r rhain i fod yn fanwl gywir oherwydd eu bod yn penderfynu'r lwfans milltiroedd).

**Teithio gyda chludiant cyhoeddus**

Mi fydd Cyswllt Ffermio yn ad-dalu unrhyw gostau teithio ar drenau neu fws pan fydd cyfnewidwyr yn eu defnyddio ar gyfer cwblhau eu taith os mai dyna'r ffordd fwyaf cost-effeithiol. Dylid teithio yn nosbarth safonol pan mae'n ymarferol i wneud hynny.

Rhaid cyflwyno derbynneb sydd yn dangos manylion y daith a dylid atodi hwn i'r ffurflen hawlio.

**Teithio gyda thacsi**

Gellir defnyddio tacsi (a chael ad-daliad am y daith) ar gyfer unrhyw deithiau ynghlwm â'r gyfnewidfa pan yn briodol i wneud hyn e.e. dylid eu defnyddio pan nad oes unrhyw ddewis arall ar gael neu fod un o'r canlynol yn gymwys:

- Mae yna arbediad mawr o amser
- Nid oes cludiant cyhoeddus ar gael

- Pan fod angen cludo bagiau a/neu offer trwm
- Pan mai hwn yw'r opsiwn mwyaf diogel i gyfnewidwyr sydd yn teithio ar ben eu hunain (e.e. hwyr gyda'r nos mewn dinas)

Rhaid cyflwyno derbynneb sydd yn dangos manylion y daith a dylid atodi hwn i'r ffurflen hawlio.

**Cynhaliaeth**

Gellir hawlio costau gyda derbynneb yn unol â'r cyfyngiadau isod. Bwriad cynhaliaeth yw i dalu am brydau bwyd. Nid yw hyn yn cynnwys hawlio costau eraill fel parcio a tholl ayyb. Mae'r rhain wedi eu nodi ar wahân isod.

| **Disgrifiad** | **Swm (hyd at uchafswm)** |
|---|---|
| Cyfradd Brecwast *Os nad yw brecwast wedi ei gynnwys gyda llety | £7 (tua €8.07) |
| Cyfradd cinio | £7 (tua €8.07) |
| Cyfradd bwyd nos | £15 (tua €17.28) |

**Cyfradd gyfnewid yr Ewro yn agored i newid. Dylid defnyddio'r wefan ganlynol i gyfrifo y gyfradd gyfnewid* http://ec.europa.eu/budget/graphs/inforeuro.html

Diffinnir pryd bwyd fel cyfuniad o fwyd a diod di-alcohol.

Er mwyn hawlio cynhaliaeth, dylid cyrraedd yr amodau isod:

- mae'n rhaid i gyfnewidydd fod wedi prynu pryd bwyd (bwyd neu ddiod di-alcohol) ar ôl cychwyn y daith, mae'n rhaid i hyn cael ei brofi gyda derbynneb ddilys
- ni ellir hawlio'r lwfans yma os yw bwyd a diod di-alcohol wedi eu darparu am ddim

Er mwyn hawlio cynhaliaeth mae'n rhaid dangos tystiolaeth gyda derbyneb, ni ellir hawlio mwy na'r hyn sydd wedi ei nodi ar y dderbynneb a hyd at y terfyn uchaf fel nodwyd uchod.

**Costau llety dros nos**

Mae gan gyfnewidwyr yr opsiwn o drefnu llety gwely a brecwast neu hawlio cyfradd unradd costau llety dros nos i aros gyda gweisteiwr eu cyfnewidfa fodd bynnag, mewn achosion lle mae cyfnewidfa dwy ffordd yn digwydd, disgwylir i holl gostau llety fod yn gyfraniad trwy garedigrwydd y ddwy ochr.

| **Disgrifiad** | **Swm (hyd at uchafswm) y noson** |
|---|---|

| | |
|---|---|
| Prifddinasoedd | £110 (€126.73) |
| Dinasoedd mawr eraill | £80 (€92.19) |
| Tu allan i ddinasoedd mawr | £70 (€80.66) |
| Aros gyda gweisteiwr eich cyfnewidfa | £30 (€34.57) |

**Cyfradd gyfnewid yr Ewro yn agored i newid. Dylid defnyddio'r wefan ganlynol i gyfrifo y gyfradd gyfnewid* http://ec.europa.eu/budget/graphs/inforeuro.html

Nid oes angen derbynneb wrth hawlio'r gyfradd 'Aros gyda gwesteiwr eich cyfnewidfa'.

Pan fydd cyfnewidwyr yn aros dros nos mewn llety gwely a brecwast, mae ganddynt yr hawl i hawlio pryd bwyd nos i hyd at uchafswm o £15. Ni ellir ad-dalu am unrhyw ddiodydd alcoholig. Mae'n angenrheidiol dangos tystiolaeth gyda derbynneb am lety dros nos a bwyd nos.

**Costau Amrywiol**

**Parcio a Thollau**

Gall costau parcio a thollau pontydd gael eu had-dalu wrth gyflwyno derbyneb briodol wrth deithio yn ystod y gyfnewidfa. Dylid cadw costau yn isel a gofynnir i gyfnewidwyr geisio defnyddio parcio am ddim pan allant. Ni fydd Cyswllt Ffermio yn ad-dalu unrhyw gost ariannol am droseddau modur, gan gynnwys tocynnau parcio.

**Costau Eraill**

Mi all Cyswllt Ffermio dalu am unrhyw gostau achlysurol cysylltiedig eraill. Er hynny, ni fydd Cyswllt Ffermio yn talu am unrhyw niwed neu golled i unrhyw eiddo personol.

Os oes angen i gyfnewidydd gyflogi llafur ychwanegol i'w galluogi i adael y busnes, gellir hawlio hyd at £200 yr wythnos i dalu'r costau ychwanegol hyn am gyfnod nad yw'n hwy na hyd y daith gyfnewid.

Gellir hawlio costau arbenigedd angenrheidiol yn ystod cyfnod y gyfnewidfa gan gynnwys llogi offer arbenigol neu wasanaethau dadansoddol arbenigol sy'n cael eu hystyried yn hanfodol ar gyfer cyfnod y gyfnewidfa. Annogir cyfnewidwyr i drafod y costau hyn gyda Cyswllt Ffermio o flaen llaw.

Ym mhob achos, mae'n rhaid egluro a chyfiawnhau pob cost yn llawn wrth ymgeisio, ac ni ellir mynd dros uchafswm y cyllid sydd ar gael (£2500 Ceidw Cyswllt Ffermio'r hawl i wrthod cyllid ar gyfer elfennau unigol ceisiadau llwyddiannus os na ellir cyfiawnhau'r costau.

**Hawlio Costau**

Dylai cyfnewidwyr yrru'r ffurflen gostau ac unrhyw dystiolaeth e.e. derbynebion at Cyswllt Ffermio o fewn 4 wythnos i ddychwelyd o'r daith. Os bydd y derbynebion a'r ddogfennaeth angenrheidiol wedi ei derbyn i gyd, bydd Menter a Busnes yn ad-dalu'r cyfnewidydd o fewn 30 diwrnod i dderbyn y cais.

Nid yw derbynebion cerdyn debyd na chredyd (ar ben eu hunain) yn dystiolaeth ddilys o wariant. Dylid gofyn am dderbynneb / taleb addas a nodi manylion y gwasanaeth / nwyddau prynwyd.